Gwers 35 – Y Dyn Dall

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Luc 18:35–43

Erbyn hyn, y mae Iesu ar ei daith olaf i Jerwsalem ac yn y bennod hon y mae Iesu'n cyfarfod â nifer o unigolion, pob un ag angen arbennig a dim ond Iesu allai ddelio â phob un. Cyfiawnder yn y llys oedd problem gwraig weddw. Camargraff ynghylch gweddi oedd problem y Pharisead. Cariad tuag at gyfoeth oedd problem llywodraethwr ifanc. Dallineb oedd problem y dyn hwn tu allan i Jericho.

Y mae Mathew (Mathew 20:29–34) a Marc (Marc 10:46–52) yn ogystal â Luc yma yn cofnodi hanes Iesu'n rhoi golwg yn ôl i ddyn dall yn Jericho. Y mae Mathew'n sôn am ddau ddyn dall, ac, fel yn efengyl Luc, un dyn dall sydd yng nghofnodiad Marc. Marc yn unig sy'n enwi'r dyn, '....yr oedd mab Timeus, Bartimeus, cardotyn dall, yn eistedd ar fin y ffordd' (Marc 10:46). Nid oes amheuaeth ymhlith ysgolheigion bod y tri efengylydd yn cyfeirio at yr un digwyddiad. Os oedd dau ddyn dall, y mae'n debygol mai Bartimeus oedd yr amlycaf oherwydd ef alwodd ar Iesu.

Synhwyrodd y dyn dall gynnwrf ymysg y bobl ac wedi holi, canfyddodd mai Iesu oedd yn mynd drwy'r dref, ac er i rai geisio ei dewi, galwodd 'Iesu, Fab Dafydd, trugarha wrthyf' (Luc 18:38). Roedd y gair am Iesu fel iachawr yn amlwg yn mynd o'i flaen ac achubodd y dyn dall ar y cyfle i gael ei iacháu.

Mae'r defnydd o'r term 'Mab Dafydd' yn ddiddorol, oherwydd ei fod yn derm Meseianaidd, (gweler hefyd Luc 20:41). Yr oedd Eseia wedi proffwydo y byddai'r Meseia yn agor 'llygaid y deillion a chlustiau'r byddariaid' (Eseia 35:5) ac ar ddechrau ei weinidogaeth yr oedd Iesu wedi dweud, 'Heddiw yn eich clyw chwi y mae'r ysgrythur hon wedi ei chyflawni', (Luc 4:21). Nid yw Iesu'n ymwrthod â'r term ac felly yn cydnabod mai ef yw'r Meseia a'i fod ar ei ffordd i farw fel yr Anfonedig un.

Y mae cwestiwn Iesu i'r dyn dall, 'Beth yr wyt ti am i mi ei wneud iti?' (Luc 18:41), yn od, ond yr oedd Iesu am roi cyfle i'r dyn i ddatgan ei ffydd, h.y. beth oedd ef yn credu y gallai Iesu ei wneud iddo. Ymateb Iesu oedd, 'Derbyn dy olwg yn ôl: dy ffydd sydd wedi dy iacháu' (Luc 18:42).

Afiechydon

Yn nyddiau Iesu, yr oedd afiechydon yn broblem fawr fel yr awgryma Marc 1:29–34, gyda'r gwahanglwyf, colera, dropsi, dallineb, byddardod, epilepsi a chloffni yn amlwg. Credai'r Iddewon fod cysylltiad rhwng pechod ac afiechyd ac yn ansicr ynghylch meddygon. Er hynny roedd yn rheidrwydd fod meddyg ym mhob tref. Nid oedd meddyginiaeth ar gael i bob dioddefwr, ac anwybyddai'r bobl eu cyfrifoldeb i ofalu am yr anghenus (Lefiticus 25:35). Nid oedd gan Marc fawr o feddwl o feddygon (gweler Marc 5:26)

Cardotwyr

Oherwydd fod y rhan fwyaf o alwedigaethau'r dydd yn golygu llafur corfforol, gorfodid unrhyw un gydag afiechyd neu anabledd difrifol i gardota. Gwelid cardotwyr yn aros ar y strydoedd yn arwain i'r trefi a'r dinasoedd, oherwydd yno yr oeddent yn debygol o gyfarfod â llawer o bobl, yn enwedig ar y Sabbath. Ni allai cardotyn osgoi'r ffordd israddol hon o fyw.



Beth sy'n digwydd yn y lluniau? Sut oedd y dyn dall yn teimlo, tybed, ar ôl cael ei olwg yn ôl gan Iesu?

Beth am ddefnyddio'r lluniau i greu symudyn? Gluda'r lluniau ar gylchoedd o gerdyn, gyda darn o edafedd ar bob cylch. Wedyn, clyma'r edafedd ar bensel neu ddarn arall o gerdyn. Beth am chwilio am luniau mewn cylchgronau o bethau hardd i dorri allan a chlymu ar y symudyn hefyd?

Diolch Dduw am y pethau hardd sy'n o'n cwmpas. Cofiwn am bobl ddall, a phawb sy'n gofalu amdanynt. Amen

Gwers 35 – Y dyn dall

Fi yw goleuni'r byd | Beibl Newydd y Plant tud. 167

(Ioan 9)

Gwers 35
Y dyn dall

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed
Y dyn dall tud 148

BEIBL LLIW STORI DUW
Bartimeus ddall tud 257

BEIBL NEWYDD Y STORIWR
Rydw i'n gallu gweld tud 110

BEIBL NEWYDD Y PLANT
Fi yw'r goleuni tud 167

BEIBL BACH I BLANT
Rydw i'n gweld tud 410

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORÏAU
Bartimeus ddall tud 356

Amser Chwarae

Bydd angen bag ag amrywiaeth o eitemau gydag arwynebedd gwahanol ynddo, e.e. pethau llyfn, garw, caled, meddal, tyllog, fel sbwng, hyblyg.

Rhowch un eitem yn y bag a gwahoddwch un o'r plant i roi eu llaw i mewn yn y bag er mwyn teimlo'r eitem a dyfalu beth sydd yno. Ar ôl dyfalu, gall y plentyn dynnu'r eitem o'r bag i bawb gael ei weld. Anogwch y plentyn i ddweud sut deimlad sydd i'r eitem o dan sylw cyn symud ymlaen i osod eitem arall yn y bag i'r plentyn nesaf. Trafodwch pa mor anodd/hawdd oedd gwybod beth oedd yn y bag heb ei weld.

Trafodwch wedyn pa mor bwysig yw ein llygaid a'n gallu i weld beth sydd o'n gwmpas. Cyflwynwch y syniad i'r plant bod yna rhai pobl nad ydynt yn gallu gweld yn dda iawn a bod rhai pobl yn ddall, yn methu gweld o gwbl.

Amser Stori

Bydd angen y lluniau o dudalen 147 (wedi chwyddo os yn bosib), wedi'i chwyddo os yn bosibl, a'i liwio.

Cuddiwch y pedwar llun o amgylch yr ystafell a gofynnwch i'r plant chwilio amdanynt. Ar ôl dod o hyd i'r lluniau, treuliwch amser yn edrych ar y lluniau cyn eu gosod mewn trefn hanes.

Atgoffwch y plant bod Iesu'n gwybod bod Bartimeus yn credu y gallai Iesu ei wella. Trafodwch hefyd ymateb Bartimeus, sut y dilynodd Iesu.

Crefft

Llyfr Crefft t. 153,154

Cân

I'r dôn 'Un bys, un bawd yn symud'

Roedd un dyn bach yn unig x3
Mae'n ddall, nid yw yn gweld.

Mae'n gweiddi ar yr Iesu x3
Plîs Iesu, gaf i weld?

Mae'r Iesu yn ei wella x3
A rhoi ei olwg yn ôl.

Mae nawr yn dilyn Iesu x3
Hwrê, mae'n gweld yn glir.

Gweddi

'Diolch am fy llygaid i gael gweld....'

Anogwch y plant i edrych o amgylch yr ystafell ac i ddewis rhywbeth i ddiolch amdano ac i weddïo yn eu tro gan ddechrau'r weddi gyda'r geiriau, 'Diolch am fy llygaid i gael gweld....'. Neu, gallech adrodd y cymal cyntaf gyda'r plant yn gorffen y frawddeg un ar y tro.

Rhigwm

Mae'r plant yn ateb y cwestiwn ar ôl i chi ei ofyn un ar y tro.

Pwy ddaeth i dref Mr Bartimeus?
Iesu Grist siŵr iawn.

Pwy oedd wrthi'n gwella pawb?
Iesu Grist siŵr iawn.

Pwy glywodd Bartimeus yn gweiddi?
Iesu Grist siŵr iawn.

Pwy gafodd sgwrs â Bartimeus?
Iesu Grist siŵr iawn.

Pwy wnaeth i Bartimeus gael gweld?
Iesu Grist siŵr iawn.

Dilyn pwy wnaeth Bartimeus?
Iesu Grist siŵr iawn.

Adnoddau Ychwanegol

Crefft
Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 5 oed t. 153,154

Taflenni gwefan amserbeibl.org
Cyfres B – Gwyrthiau

Cyfres DVD Stori Duw
Stori 45: Pobl a gyfarfu Iesu

Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant
Stori 42: Rydw i'n gweld

Llyfrau Stori
Iesu yn iacháu
Hei, rwyn gweld